

# **Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg yn Estyn 2020-2021**

Mae'r nawfed adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys crynodeb o gynnydd a wnaed rhwng Mawrth 2020 ac Ebrill 2021 yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd yn adroddiad y llynedd.

### **Blaenoriaethau ar gyfer 2020-2021**

- 1. Parhau â phroses o hunanasesu ac asesu cymheiriaid, a'i datblygu ymhellach trwy ddatblygu mwy o gyfrifoldeb unigol o fewn timau, ac ar eu traws, er mwyn dadansoddi i ba raddau yr ydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a sut gallem ni wella ein perfformiad a'n gwasanaethau.**
- 2. Gweithredu pecyn cymorth ARFer o Dymor yr Hydref 2020 ymlaen er mwyn defnyddio medrau Cymraeg siaradwyr rhugl a dysgwyr o fewn y sefydliad, a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach. (Gweler Atodiad 8 am ddiffiniad o brosiect ARFer).**
- 3. Nodi cyfleoedd sy'n gwella ein perfformiad a'n hymddangosiad fel sefydliad dwyieithog. Er enghraifft, ymchwilio i'r defnydd o dechnoleg sydd ar gael yn Gymraeg, a sut gallai wella ein defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol.**

### **Cyflwyniad**

At ei gilydd, rydym wedi gwneud cynnydd da, lle bo'n ymarferol bosibl, o ran y blaenoriaethau uchod yn ystod y flwyddyn, a bwriad yr adroddiad hwn yw adlewyrchu ac enghreifftio'r cynnydd hwnnw.

Mae'n werth nodi bod safonau'r Gymraeg wedi bod yn ysgogiad pwysig wrth ein galluogi i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gwaith o ddydd i ddydd.

- 1. Parhau â phroses o hunanasesu ac asesu cymheiriaid, a'i datblygu ymhellach o fewn gwahanol dimau corfforaethol er mwyn dadansoddi i ba raddau rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a sut y gallem wella ein perfformiad a'n gwasanaethau Cymraeg.**

Mae'r broses hon yn cynnwys gofyn i aelod o'r tîm perthnasol yn y gwasanaethau corfforaethol drafod â chydweithwyr a pharatoi dadansoddiad byr o'r ffordd y maent yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Yn ystod cyfarfod y Gweithgor Iaith Gymraeg, caiff y safonau sy'n berthnasol i'r tîm corfforaethol hwnnw eu dangos ar y sgrin ac mae'r unigolyn yn siarad amdanynt, gan esbonio sut maent yn dehongli'r safon yn eu cyd-destun nhw. Mae hyn yn arwain at gwestiynau ac awgrymiadau gan aelodau eraill y grŵp, sy'n helpu i egluro unrhyw faterion lletchwith yn ogystal â mireinio'n dealltwriaeth gyfunol o ofynion y safonau. Os bydd angen, gofynnir i gynrychiolwyr y tîm ystyried materion a godwyd, a dod yn ôl i'r cyfarfod nesaf ar ôl eu trafod â chydweithwyr yn yr un tîm. Mae'r broses hon wedi bod yn fuddiol i bawb sydd ynghlwm, ac arweiniodd at broses effeithiol o adolygu gan gymheiriaid, gan arwain at hunanwerthuso ein cydymffurfiaeth â'r safonau.

Mae'r broses hon yn eitem sefydlog yn ein cyfarfodydd tymhorol.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, aeth tri o dimau trwy'r broses hon, sef: Gwasanaethau Swyddfa, y Tîm Digwyddiadau a'r Ysgrifenyddiaeth.

Arweiniodd adolygiad y Gwasanaethau Swyddfa at welliannau, er enghraifft ei bod yn ofynnol i bob aelod o staff GS, nid dechreuwyd newydd yn unig, gwblhau'r cyrsiau rhagflas ar-lein Cymraeg Gwaith, er mwyn sicrhau cysondeb o fewn yr adran.

Roedd yr adolygiad Digwyddiadau yn ddefnyddiol iawn i'r graddau bod ymgysylltu â rhanddeiliaid eleni wedi bod yn wahanol i'r arfer oherwydd y pandemig. Erbyn hyn, cynhelir digwyddiadau trwy dechnoleg cynadledda ar-lein. Microsoft Teams yw'r dechnoleg sy'n cael ei ffafrio gan lawer o gyrff cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys y cyfleuster i ddefnyddio cyfieithu ar y pryd ar hyn o bryd. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ei gwneud yn glir fod gennym rwymedigaeth gyfreithiol fel corff cyhoeddus sy'n atebol i Safonau'r Gymraeg i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog, yn cynnwys defnyddio technoleg fideo gynadledda. Rydym bellach yn mynd ati'n rhagweithiol i drefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer pob fforwm rhanddeiliaid yn hytrach na gofyn i bobl a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg ac asesu'r galw am gyfleuster o'r fath. Felly, rydym wedi prynu trwydded Zoom sy'n ein galluogi i gynnig cyfleusterau cyfieithu o'r fath. Fodd bynnag, mae hyn wedi arwain at rai anawsterau pan fydd cynrychiolwyr yn anghyfarwydd â Zoom, neu ddim yn gallu ei ddefnyddio, ac adlewyrchir hyn yn yr adborth a'r cyfraddau boddhad a amlinellir yn Atodiad 5. Hefyd, mae'n werth nodi bod yr adborth hwn yn awgrymu bod disgwyliadau cynrychiolwyr sy'n siarad Cymraeg, fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n ystyrlon mewn hyfforddiant a sesiynau rhanddeiliaid, yn cynyddu. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfieithu ar y pryd effeithiol, ac mae gennym gynlluniau i gynyddu ein defnydd ohono, a threialu'r defnydd o gyfieithu ar y pryd Cymraeg a Saesneg yn ystod blwyddyn adrodd 2021-22.

Yn dilyn yr adolygiad cymheiriaid, cytunwyd hefyd y dylai'r holl staff Digwyddiadau wneud y cwrs ar-lein Cwrdd a Chyfarch Cymraeg Gwaith os nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg.

Arweiniodd adolygiad tîm yr Ysgrifenyddiaeth at newidiadau i'n polisi cwynion er mwyn cyfeirio'n benodol at gwynion ynghylch cydymffurfio â safonau cyflwyno gwasanaethau. Yn ychwanegol, yn sgil yr adolygiad, sicrhaom ein bod yn fwy rhagweithiol yn cynnig gwasanaethau Cymraeg. Er enghraifft, yn yr holl gyfarfodydd sy'n cael eu trefnu trwy'r Ysgrifenyddiaeth, rydym yn awr yn gofyn i fynychwyr allanol ymlaen llaw, p'un a ydynt wedi cyfarfod â ni o'r blaen ai peidio, a ydynt yn dymuno defnyddio cyfieithu ar y pryd, p'un a yw'r cyfarfod yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae'r geiriad a ddefnyddir fel a ganlyn; *'Fel sefydliad sy'n gweithredu safonau'r Gymraeg, hoffem roi'r cyfle i chi ddefnyddio'r iaith o'ch dewis yn y cyfarfod. Os hoffech chi ddefnyddio'r Gymraeg, a fyddech cystal â rhoi gwybod i ni cyn gynted ag y bydd yn gyfleus er mwyn i ni allu gwneud y trefniadau gweinyddol angenrheidiol?'*


**2. Gweithredu pecyn cymorth ARFer o Dymor yr Hydref 2020 ymlaen er mwyn defnyddio medrau Cymraeg siaradwyr rhugl a dysgwyr o fewn y sefydliad, a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach. (Gweler Atodiad 8 am ddiffiniad o brosiect ARFer).**

O ganlyniad i'r pandemig, gohiriwyd lansio'r pecyn cymorth arfaethedig, a chynhaliwyd cynllun peilot mewn cyrff eraill er mwyn mireinio'r cynllun a myfyrio ar effaith gweithio ar-lein ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus. O ganlyniad, nid oedd modd gweithredu'r pecyn cymorth yn fewnol, yn unol â'r bwriad yn ystod y flwyddyn adrodd. Fodd bynnag, rydym yn parhau i ymrwymo i wneud hynny, a byddwn yn ei gynnwys fel elfen allweddol o'n Cynllun Strategol y Gymraeg 2021-24.

**3. Nodi cyfleoedd sy'n gwella ein perfformiad a'n hymddangosiad fel sefydliad dwyieithog. Er enghraifft, ymchwilio i'r defnydd o dechnoleg sydd ar gael yn Gymraeg, a sut gallai wella ein defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol.**

Fel yr amlinellir ym mhwynt 1 uchod, rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth weithredu cyfieithu ar y pryd trwy dechnoleg fideo gynadledda. Rydym wedi ymrwymo i gynnal ein safbwynt y bydd cyfleuster cyfieithu o'r fath yn cael ei gynneg fel ein sefyllfa diofyn yn hytrach nag ar gais neu yn dilyn asesiad o alw 'digonol' fel y nodir o dan Safon 25 y Gymraeg.

Yn ychwanegol, rydym wedi nodi bod angen diweddarau ein Polisi Iaith Gymraeg er mwyn adlewyrchu mynychter gweithio ar-lein. Rydym yn cydnabod bod dynameg ymgysylltu ar-lein yn wahanol i ymgysylltu â senarios mwy traddodiadol a bod angen i ni annog rhanddeiliaid a'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn siarad â ni, os byddant yn dymuno gwneud hynny. O ganlyniad, rydym wedi cynnwys logo Cymraeg Gwaith ar ein cefndir fideo gynadledda corfforaethol (gweler isod) i nodi ein haelodau staff sy'n siarad Cymraeg. Rydym yn gweld hyn fel estyniad naturiol i staff sy'n siarad Cymraeg sy'n defnyddio'r logo ar ein llofnodion e-bost neu'n gwisgo laniardiau sy'n ymgorffori'r logo.



Yn unol â'r flwyddyn ariannol, rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion sy'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (p'un a yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau y mae gennym ni ddyletswydd i gydymffurfio â nhw ai peidio). Yn ystod 2020-21, ni dderbyniwyd unrhyw gŵynion am ein gwasanaethau iaith Gymraeg.

Rydym yn monitro'n agos ansawdd ein gwasanaethau iaith Gymraeg, ac yn cadw cofnod o'r hyn rydym ni'n ei wneud i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi. Rydym yn cadw cofnod (yn dilyn asesiadau o fedrau Cymraeg), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar fedrau yn y Gymraeg (gweler atodiadau 1 a 2 isod). Rydym yn cadw cofnod yn ogystal o nifer a chanran yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu gyrsiau ymwybyddiaeth iaith (gweler atodiad 4 isod.)

Rydym yn cadw cofnod o nifer y swyddi gwag yr aseswyd bod medrau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, ddim yn angenrheidiol neu y mae angen dysgu Cymraeg ar eu cyfer.

Cynhaliwyd dwy ymgyrch recriwtio yn ystod 2019-2020.

- Swyddog Gweinyddol – medrau Cymraeg yn hanfodol
- Cydlynnydd Arolygu – medrau Cymraeg yn hanfodol
- Gohiriwyd recriwtio AEM newydd o ganlyniad i COVID-19 – medrau Cymraeg yn ddymunol

Fodd bynnag, o ganlyniad i'r pandemig, ni ddechreuodd yr ymgeiswyr llwyddiannus am y swyddi gweinyddol tan 2020-2021. Yn yr un modd, cynhaliwyd yr ymgyrch i recriwtio AEM yn 2019-20, ond o ganlyniad i faterion cyllid, dim ond 1 o'r ymgeiswyr llwyddiannus am swyddi AEM a ddechreuodd weithio gyda ni yn ystod y cyfnod adrodd.

Felly, yn ystod 2020-2021, ymunodd 3 aelod newydd o staff parhaol ag Estyn mewn gwahanol swyddi. (1 aelod o staff arolygu, a 2 aelod o staff corfforaethol.) Cafodd pob un o'r 3 yr hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Blaenoriaethau ar gyfer 2021-2022**

- 1. Parhau â phroses o hunanasesu ac asesu cymheiriaid, a'i datblygu ymhellach o fewn gwahanol dimau corfforaethol er mwyn dadansoddi i ba raddau rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a sut y gallem wella ein perfformiad a'n gwasanaethau Cymraeg.**
- 2. Gweithredu pecyn cymorth ARFer o 2021 ymlaen, pan fydd modd, er mwyn defnyddio medrau Cymraeg siaradwyr rhugl a dysgwyr o fewn y sefydliad, a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach. (Gweler Atodiad 8 am ddiffiniad o brosiect ARFer).**
- 3. Datblygu ac ymgorffori'r pwyntiau uchod mewn Cynllun Strategol y Gymraeg a Pholisi Iaith Gymraeg wedi'i ddiweddarau a fydd yn mynd ati i hyrwyddo cysyniad y 'cynnig rhagweithiol' yn hytrach nag ymagwedd adweithiol at wasanaethau Cymraeg. Byddwn yn parhau â'n prosesau hunanasesu ac asesu cymheiriaid mewnol i fesur effeithiolrwydd ein trefniadau cydymffurfio presennol. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio gwella ein safonau cyflwyno gwasanaethau yn barhaus ac yn ymdrin â chydymffurfio deddfwriaethol fel y waelodlin isaf y gallwn wella ohoni.**
- 4. Datblygu ymhellach ein dull o asesu effaith y prosesau gwneud penderfyniadau a phenderfyniadau polisi ar y Gymraeg.**

## Atodiadau


### Atodiad 1: Nifer a chanran y staff yng ngwasanaethau'r sefydliad sy'n medru'r Gymraeg ar 31 Mawrth 2021 (cyfwerth ag amser llawn)

- Fesul adran
- Yn ôl gradd y swydd

Staff	Nifer y staff ar 31/03/2021	Nifer y siaradwyr Cymraeg ar 31/03/2021	Canran
PAEM	1	1	100%
Cyfarwyddwyr Strategol	2	1	50%
<b>Staff arolygu</b>			
Cyfarwyddwyr Cynorthwyol	6	4	67%
AEM	58	22	38%
Arolygwyr Ychwanegol (secondiadau)	0	0	0
Cyfanswm y staff arolygu	64	26	41%
<b>Staff corfforaethol</b>			
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol	1	0	0%
Gradd 7	3	2	67%
Uwch Swyddogion Gweithredol	3	0	0%
Swyddogion Gweithredol Uwch	6	2	33%
Swyddogion Gweithredol	20	7	35%
Swyddogion Gweinyddol	13	3	23%
Cyfanswm	46	14	30%
<b>Cyfanswm staff Estyn</b>	<b>113</b>	<b>42</b>	<b>37% (34% yn 19/20)</b>

**Atodiad 2: Staff arolygu sy'n gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg fel canran o'r holl staff arolygu (cyfwerth ag amser llawn)**

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021
<b>Staff arolygu sy'n gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg</b>	22	25	25	25	26
<b>Cyfanswm staff Estyn</b>	64	60	64	65	64
<b>Canran %</b>	<b>34%</b>	<b>42%</b>	<b>39%</b>	<b>38%</b>	<b>41%</b>





### Atodiad 3: Hyfforddiant iaith Gymraeg 2020/21

Math	Nifer y staff	Darparwr	Lleoliad	Diwrnodau
<b>Cyrsiau mewnol a gyflwynwyd ar-lein</b>				
Mynediad	3	Dysgu Cymraeg Morgannwg	Rhithwir	25
Canolradd	5	Dysgu Cymraeg Morgannwg	Rhithwir	25
<b>Cyrsiau allanol</b>				
Canolradd 2 (Dysgu Cyfunol)	1	Dysgu Cymraeg Y Fro	Rhithwir	1
Cwrs Uwch (Dysgu Cyfunol)	1	Dysgu Cymraeg Morgannwg	Rhithwir	7.5
Dosbarthiadau adolygu Sylfaen	1	Prifysgol Caerdydd	Rhithwir	2
Dosbarth adolygu ar gyfer y Cwrs Uwch	1	Dysgu Cymraeg Morgannwg	Rhithwir	2
Sylfaen 1 a 2 (Dysgu Cyfunol)	1	Prifysgol Caerdydd	Rhithwir	7.5

**Cyfanswm: 13 aelod o staff a 70 diwrnod**

(16 aelod o staff a 72 diwrnod yn 2019-2020)


#### **Atodiad 4: Nifer y staff a dderbyniodd hyfforddiant sefydlu iaith Gymraeg a hyfforddiant penodol trwy gyfrwng y Gymraeg**

Mae'r holl staff, gan gynnwys staff dros dro neu staff asiantaeth, yn derbyn hyfforddiant sefydlu ymwybyddiaeth iaith Gymraeg fel rhan o'u rhaglen sefydlu gan yr AEM sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg. Caiff hyn ei amserlennu gan yr adran adnoddau dynol fel rhan o raglen sefydlu staff newydd. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth fras am hanes yr iaith a'i lle yn hanes Cymru, dealltwriaeth o ofynion Safonau'r Gymraeg a dealltwriaeth o'r modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Yn ystod 2020-2021, ymunodd 3 aelod o staff newydd parhaol ag Estyn mewn swyddi gwahanol. (1 aelod o staff arolygu a 2 aelod o staff corfforaethol.) Cafodd pob un o'r 3 aelod o staff newydd hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ychwanegol, cyflogwyd 3 aelod o staff asiantaeth, a chawsant hyfforddiant yn Saesneg.

## Atodiad 5: Dadansoddi sut mae hyfforddiant allanol/ymgysylltu â rhanddeiliaid yn bodloni gofynion iaith Gymraeg cynrychiolwyr

O ganlyniad i'r pandemig, roedd nifer y digwyddiadau rhanddeiliaid allanol yn llai nag ydoedd mewn blynyddoedd blaenorol. Ymatebodd 212 o gynrychiolwyr i gyd: teimlai 198 (93%) fod y digwyddiad y gwnaethant ei fynychu wedi diwallu eu hanghenion iaith, sy'n is na ffigur y llynedd, sef 98%. Teimlai 14 (7%) na chafodd eu hanghenion iaith eu diwallu.



O'r 14 cynrychiolydd a atebodd 'na' i'r cwestiwn hwn, ni roddodd 6 ohonynt unrhyw gyd-destun i'w hateb. Soniodd y cynrychiolwyr a roddodd y cyd-destun:

- fod 7% o gynrychiolwyr yn teimlo nad oedd yr hyfforddiant yn diwallu eu hanghenion iaith. Dyma'r rhesymau a roddwyd:
- dylid bod wedi siarad mwy o Gymraeg – 2 sylw
- ymunodd cynrychiolydd trwy'r porwr, felly doedd dim cyfieithiad ar gael (Zoom) – 2 sylw
- roedd neidio rhwng dwy iaith heb y cyfieithydd yn anodd trwy Teams – 1 sylw
- problemau wrth droi i'r sianel sain oedd yn cael ei ffafrio (Zoom) – 1 sylw
- byddai wedi hoffi gweminar yn gyfan gwbl yn Gymraeg – 1 sylw
- roedd y cynrychiolydd yn disgwyl i'r digwyddiad fod yn Gymraeg – 1 sylw

## Atodiad 6: Ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Estyn yn cyfathrebu'n ddwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r siartiau isod yn dangos y ganran sy'n gweld negeseuon yn Saesneg (EstynHMI) ac yn Gymraeg (EstynAEM).

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 19% o'r boblogaeth yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg.


Fodd bynnag, yn yr arolwg o'r Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru 2013-15 (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, 26 Tachwedd 2015), dangosodd y ffigurau fod 18 y cant o'r holl siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio Facebook yn defnyddio'r Gymraeg, a bod 12 y cant o'r holl siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio Twitter yn defnyddio'r Gymraeg.

<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/English/Publications%20List/Adroddiad%20-%20Y%20defnydd%20o'r%20Gymraeg%20yng%20Nghymru,%202013-15%20-%20Saesneg.pdf>


Mae'r ffigurau isod yn dangos bod lefelau ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol Estyn yn uwch nag y byddai ffigurau 2013-15 yn awgrymu.

**Yn ystod 2020-2021, cynyddodd nifer yr argraffiadau Cymraeg ar Twitter o 9.73% o gyfanswm yr argraffiadau i 16.45%. Fodd bynnag, gostyngodd canran y cyrhaeddiad Cymraeg ar Facebook o 32.77% i 26.55%.**

Mae'r argraffiadau yn cynrychioli safbwyntiau ar ffrwd Twitter



Mae cyrhaeddiad Facebook yn cynrychioli nifer y troeon yr edrychwyd ar dudalen Facebook Estyn



## **Atodiad 7: Diffiniad o brosiect ARFer**

Mae Prifysgol Bangor wedi sefydlu prosiect ARFer sy'n anelu at sicrhau dealltwriaeth well o ddefnydd iaith ymhlith cydweithwyr er mwyn cyflwyno ymyriadau a chymorth teilwredig i annog defnydd o'r Gymraeg mewn gweithle dwyieithog.

### **ARFer**

Mae rhaglen ARFer yn fethodoleg a ysbrydolwyd gan brosiect Aldahitz wedi'i ddylunio gan Soziolinguistika Klusterra yng Ngwlad y Basg. Mae'r prosiect wedi'i seilio ar ddwy egwyddor sydd wedi'u gwreiddio yn y gwyddorau ymddygiadol, sef: ymrwymo i ymddwyn mewn ffordd benodol; elwa ar y dylanwad sylweddol y gall diffygion ei gael ar ymddygiad pobl.

Yn ei hanfod, mae ARFer yn rhaglen sy'n gofyn i unigolion ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg fel yr iaith arferol gyda'r nod o sefydlu'r Gymraeg fel y norm.

Mae'r ffactorau canlynol yn allweddol i lwyddiant y cynllun:

- buddsoddi mewn rhaglen sy'n cefnogi dymuniad staff i ddefnyddio'r Gymraeg
- pwysigrwydd creu cyd-destun sy'n galluogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg
- pwysigrwydd cynorthwyo siaradwyr Cymraeg (yn ogystal â dysgwyr) i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith
- pwysigrwydd deall patrymau defnydd iaith cyn gwneud unrhyw gynnig i ddylanwadu arnynt.

## **Atodiad 8: Sarah Beebee – Dysgu Cymraeg yn Estyn**

Symudais i Gymru o Loegr yn 2011 ac roedd dechrau gweithio yn y Gwasanaeth Sifil yng Nghaerdydd braidd yn her i ddechrau. Dywedwyd wrthyf ar fy niwrnod cyntaf fod angen i mi ateb y ffôn yn ddwyieithog, ac ysgrifennodd fy rheolwr yn seinegol i mi sut i ynganu “Bore da” a “Prynhawn da”. Roeddwn yn gweithio â chydweithwyr a oedd i gyd wedi astudio rhywfaint o Gymraeg yn yr ysgol, felly roedd llawer ohonynt yn gwybod yr hanfodion ac yn deall ynganiadau, ond roedd hyn yn hollol newydd i mi.

Astudiais Ffrangeg ac Almaeneg ar lefel TGAU ac Almaeneg Safon Uwch, felly roedd gennyf ddi-ddordeb mewn ieithoedd eisoes, ond pan gefais gynnig Cwrs Blasu drwy'r gweithle, roeddwn yn awyddus i ddysgu'r hanfodion. Mynychais gwrs 6 wythnos lle dysgais yr wyddor Gymraeg a chyfarchiadau syml, ynghyd â sut i ddisgrifio lle rwy'n gweithio a beth rwy'n ei wneud. Ar ôl hynny, cefais gynnig cyfle i fynychu cwrs wedi'i deilwra'n benodol i “Gymraeg yn y Gweithle”. Trwy'r cwrs hwn, enillais y wybodaeth a'r hyder i gyfarch ymwelwyr i'r swyddfa, gofyn iddynt lofnodi eu hunain i mewn a defnyddio Cymraeg sylfaenol dros y ffôn.

Parhaodd Estyn i gefnogi fy nysgu Cymraeg ac, yn 2016, dechreuais y cwrs Mynediad yn y swyddfa ar foreau Gwener, ond mynchais gwrs dysgu cyfunol ar nosweithiau lau hefyd, yn agos at le rwy'n byw. Mae'r cwrs dysgu cyfunol yn berffaith i mi: dosbarth sy'n para dwy awr unwaith yr wythnos, ynghyd â modiwlau ar lein a gwaith cartref i'w cwblhau yn fy amser fy hun cyn y dosbarth nesaf.

Yn ystod haf 2017, llwyddais yn fy arholiad Mynediad, a roddodd yr hyder i mi symud ymlaen i'r lefel nesaf, sef Sylfaen. Rwyf wedi ymgymryd â sawl cwrs Sylfaen ers hynny, gan gynnwys cwrs adolygu dwys yn yr haf dros gyfnod o bythefnos, y rhoddodd Estyn wyliau arbennig i mi ar ei gyfer yn ystod ein hamser segur.

Ar hyn o bryd, rwy'n astudio'r cwrs Canolradd ar ddyddiau Gwener yn y gwaith, a bydd Estyn yn fy nghefnogi o fis Medi i ddechrau cwrs Canolradd cyfunol newydd gyda'r nos.

Mae'r dosbarthiadau yn y gwaith nid yn unig wedi bod yn fuddiol iawn i mi'n broffesiynol, ond mae astudio ar y cyrsiau nos wedi bod yn ffordd wych i gyfarfod â ffrindiau newydd, ac rwy'n aml yn cyfarfod fy nghyd-ddisgyblion Cymraeg yn gymdeithasol.

Rwy'n ddiolchgar iawn i Estyn am barhau i'm cefnogi wrth i mi ddysgu Cymraeg. Bu fy nghydweithwyr yn galonogol iawn ac maent wedi cynnig fy helpu i ymarfer. Yn raddol, rwyf wedi gallu cynyddu fy nefnydd o'r Gymraeg yn y gwaith, a blwyddyn neu ddwy yn ôl siaradais rywfaint o Gymraeg mewn cameo mewn cynhadledd staff flynyddol. Er fy mod i'n teimlo fy mod cryn ffordd o fod yn hollol rugl o hyd, rwy'n magu hyder ac yn mwynhau parhau i ddysgu Cymraeg.